# 6434: Adroddiad Cynnydd Gwaith Harbwr, Pwllheli (09/10/2018)

Ailadeiladu'r Grwyn

- Yn dilyn arolwg topograffeg a gynhaliwyd yn ystod wythnos yn cychwyn 10 fed o Fedi, mae'r dyluniad bellach yn nwylo Alan Williams o Coastal Engineering UK. Disgwylir bydd dyluniad amlinellol o'r grwyn ar gael cyn ddiwedd y mis.
- Mae CEUK wedi bod yn cyd-weithio gyda'n uned geo-dechnegol ynghylch yr agwedd archwiliad o'r ddaear – dim pryderon I'w hadrodd.
- Mae archwiliadau wedi canfod bod gan Ddŵr Cymru gyfarpar o fewn ardal y gwaith, ac wedi gofyn am drafodaeth pellach unwaith bydd dyluniad amlinellol ar gael.
- Ynghylch hawliau - Mae Cyfreithiwr Cyngor Gwyned wedi cadarnhau bod gan Gyngor Gwynedd hawliau dan Ddeddf Harbwr Pwllheli I ail-adeiladu'r grwyn, fodd bynnag, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru angen cytuno gyda'r bwriad cyn bwrw ymlaen gyda ei adeiladu. Mae hwn yn broses llai ffurfiol, hynny yw, ni fydd angen Trwydded Forwrol fel y cyfryw.

Gwagio'r Lagŵn Distyllu:

- Arolwg hydrograffeg a topograffeg wedi ei gwblhau yn ystod wythnos yn cychwyn 10/09/2018. Cyfrifir bod yna oddeutu 4,000m3 o ddeunydd yn y lagŵn.
- Cyfarfod gyda Uned Bioamrywiaeth 03/10/2018 – yr adran yn hapus gyda'r bwriad o drosglwyddo deunydd I'r tir sy' wedi ei adennill yn barod cyn belled bod y pwll yn cael ei gadw ar gyfer bywyd gwyllt, a bod y ffens yn cael ei gadw er mwyn sicrhau fod bywyd gwyllt yn cael llonydd.
- Fodd bynnag, mae Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd wedi nodi 03/10/2018 eu bod angen cais er mwyn diwygio amodau caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith o adeiladu'r bwnd a'r tir sy' wedi ei adennill o'r harbwr.
- Dogfennau contract yn barod I fynd allan I dendr. Aros am ddyluniad tirlunio. Anelu I fynd I dendr wythnos nesaf.

Carthu basn yr harbwr:

- Arolwg hydrograffeg wedi ei gwblhau gan CES yn ystod wythnos yn cychwyn 10fed o Fedi. Trwy gymharu arolwg hydrograffeg presennol gyda'r design levels, mae'n ymddangos bod angen carthu oddeutu 60,000m3 o ddeunydd er mwyn cynyddu'r dyfnder I'r designed levels. Angen trafodaeth gyda'r client i flaenoriaethu ardaloedd I'w carthu, gan gysidro mai 20,000m3 yw capasiti'r lagŵn.
- Sampls wedi eu casglu ddoe (09/10/2018) – bydd yn cael eu dadansoddi o fewn y dyddiau nesaf